Neuadd Y Sir
Stryd Caerfyrddin
Llandeilo
Sir Caerfyrddin
SA19 6AF

ffon/Facs:
01558 824167

Technical Officer/
Swyddog Technegol:
Mr R.H. Griffiths

The Shire Hall
Carmarthen Street
Llandeilo
Carmarthenshire
SA19 6AF

Phone/Fax:
01558 824167

Town Clerk/ Clerc y
Dref: Ms C.A .Paterson
clerk@llandeilo.gov.uk

Cofnodion o gyfarfod o'r Cyngor Llawn a gynhaliwyd yn y Neuadd Sirol, Llandeilo ar ddydd Mawrth 16eg Mawrth 2004 am 7.30 pm.

Presennol: *Cynghorwyr:* Cyng D. A. Jones (Maer/Cadeirydd), Cyng S. Burge, Cyng C. Jenkins, Cyng I. Gwyn, Cyng R. Bellamy (Dirprwy Faer), Cyng K.Day.
Arall: Cynghorydd Sir I. Jones, R. Huw Griffiths (Swyddog Technegol), C. A. Paterson (Clerc y Dref).

6027: Ymddiheuriadau: Cyng D. Williams.

6028: Cofnodion o Gyfarfod Blaenorol o'r Cyngor Llawn. Tynnodd y Cynghorydd Bellamy sylw bod Eitem o Ohebiaeth oddi wrth Fwrdd yr Iaith mewn perthynas â Pholisi Dwyieithog y Cyngor Tref heb ei chynnwys yn y cofnodion.

Clerc i roi copi o'r Polisi Drafft i'r Cyng Williams i'w ail-ddrafftio a'i anfon ymlaen at Fwrdd yr Iaith.

Derbyniwyd Gofnodion o'r Cyngor Llawn a gynhaliwyd ym Mhrif Siambr Drafod Dinefwr, Adeiladau'r Cyngor, Y Cilgant, Llandeilo ar ddydd Mawrth 17eg Chwefror 2004 am 7.30pm fel cofnod cywir o'r cyfarfod, gyda'r ychwanegiad uchod. Cynigiwyd gan y Cyng Bellamy, eiliwyd gan y Cyng. Jenkins.

6029: Materion yn Codi.

6003: Gerddi ar y Cilgant; Mae Adran Gyfreithiol Cyngor Sir Caerfyrddin wedi ateb mai'r unig fynediad a nodir i'r gerddi yw trwy Ysgubor Abad. Mae Gwerthu/Prynu'r Alotment i fynd yn ei flaen ar sail hyn.

5952: Etholwyd y Cyng K. Day fel Cadeirydd y Cymdeithas Gymunedol. Diolchodd y Cyngor i'r Cyng Jenkins am yr holl waith y mae wedi ei wneud i'r Gymdeithas Gymunedol.

6010: Un Llais i Gymru.

Barn ac argymhelliad y Pwyllgor Cyllid yw y dylai'r Cyngor ymuno gyda'r Gymdeithas newydd i Gynghorau Lleol Un Llais i Gymru a chefnogwyd hyn gan y Cyngor. Y Clerc i dalu'r ffi aelodaeth am y flwyddyn gyntaf.

0163 Yn y man yma fe dorrodd y cyfarfod. Annerchodd Mr Rhobert ap Steffan y Cyngor yngl n â'r cynnig i ddatblygu Cerflun Tref neu Brosiect Cerfluniau. Rhoddwyd llawer o wybodaeth i'r Cyngor am y prosiect llwyddiannus yn Llanymddyfri. Trafododd y Cyngor ei opsiynau, gan edrych ar gystadleuaeth i ddylunio dau gerflun, un o'r Arglwydd Rhys, ac un o Teilo Sant o fewn prosiect wedi ei ariannu gan Cyngor y Celfyddydau /loteri.

Teimlodd y Cyngor y byddai'n werthfawr i ddilyn a datblygu prosiect o`i fath gan fynd ymlaen gyda'r canllawiau a roddwyd gan Mr ap Steffan. Y cam cyntaf fyddai i ethol pwyllgor llywio.

6030: Cofnodion o gyfarfod o'r Pwyllgor Cyllid a gynhaliwyd yn Neuadd y Sirol ar ddydd Mercher 3ydd Mawrth 2004 am 7.00 pm

Mae'r Cyngor yn derbyn cofnodion y Pwyllgor Cyllid a gynhaliwyd yn Neuadd Y Sir, Llandeilo am 7.00 pm ar ddydd Mercher 3ydd Mawrth 2004 fel cofnod cywir o'r cyfarfod ac yn derbyn yr argymhellion ynddynt. Cynigiwyd gan y Cyng Bellamy, eiliwyd gan y Cyng Jenkins.

6031: Materion yn codi. Mae Arolwg Asbestos y Neuadd Sirol wedi ei gwblhau. Mae yna un 'blaenoriaeth un' o o asbestos yn yr adeilad, mewn olion resin a ddefnyddir yn yr ystafell foeler. Mae angen symud hwn yn amgylcheddol cyn gynted â phosib.

Mae gan y Swyddog Technegol ddyfynbris yn ei feddiant oddi wrth West Wales Heating Services am £550 + TAW ac mae'r cwmni yn gallu gwneud y gwaith yn yr wythnos sy'n dechrau 23ain o fis Mawrth 2004. Derbynnir y dyfynbris hwn ac fe roddir y gwaith i'w osod ar gytundeb a'i wneud yn unol â'r Adroddiad Asbestos , cyn gynted â phosib. Cynigiwyd gan y Cyng. Day eiliwyd gan y Cyng. Gwyn.

Gwasanaethau Rhestr Talu Cyflogai. Roedd y clerc wedi derbyn ateb gan Gyngor Sir Caerfyrddin yngl n â mabwysiadu'r rhestr talu cyflogai fechan i'r Cyngor. Ystyriwyd bod codiad o £500.00 y flwyddyn yn ormodol.

Y clerc i gysylltu a W. C. V. A. i holi os ydynt yn gallu cynnig unrhyw gymorth a faint y byddent yn ei godi am y fath wasanaeth.

Adran 137: Roedd y pwyllgor wedi derbyn rhyw bedwar cais am wasanaeth ariannol heb wybodaeth ariannol yn amgaeedig. Oherwydd bod gan y Pwyllgor dipyn bach o arian dros ben, fe benderfynon nhw ystyried y ceisiadau yma yn ôl eu teilyngdod unigol.

Derbyniwyd llythyr cais am gymorth ariannol oddi wrth 'Bobby Van Scheme' ar ôl y cyfarfod hwn. Cynigiodd Y Cyng. Bellamy rodd o £50.00 i'r Cynllun Plismona Cymunedol yma, o'r cyllideb oedd yn weddill. Eiliwyd gan y Cyng. Jones.

6032 : Cofnodion Cyfarfod o'r Pwyllgor Cynllunio, a gynhaliwyd yn y Neuadd Sirol ar ddydd Mercher 3ydd Mawrth 2004 am 8.30pm.

Mae'r Cyngor yn derbyn cofnodion Y Pwyllgor Cynllunio a Dibenion Cyffredinol a gynhaliwyd yn y Neuadd Sirol yn Llandeilo am 8.30pm ar ddydd Mercher 3ydd Mawrth 2004 fel cofnod cywir o'r cyfarfod ac yn derbyn yr argymhellion sydd ynddynt. Cynigiwyd gan y Cyng. Jenkins, eiliwyd gan y Cyng. Gwyn.

0164

0163

0164

6033 Materion yn Codi.*Rhif y Cais Cynllunio EO1371-TG04635 am 17 o dai ychwanegol yn Llys Pencrug*

Yn unol â'r rheolau sefydlog, mae'r cais yma yn dod gerbron y Cyngor Llawn oherwydd ei fod yn ymwneud â mwy na chwech o adeiladau newydd. Tynnodd y Cyngor sylw at yr anawsterau dan sylw wrth ystyried pob cais bloc ar wahân, tra mae prif bryderon y Cyngor yn ymwneud â'r datblygiad yn ei gyfanrwydd.

Tra bod y Cyngor yn croesawu'r datblygiad hwn, gan ddod â chartrefi sydd fawr eu hangen i'r Dref, mae gan y Cyngor bryderon yngl n â'r datblygiad cyfan sy'n ymwneud a'r gwasanaethau canlynol:

1. Mynediad: Ymddengys mai un fynedfa yn unig sydd i'r safle o Heol Caerfyrddin. Nid oes mynediad drwy Lwybr o'r safle i'r Dref. Nid oes mynediad i'r Ysgolion onibai bod y plant yn cael eu cludo. Mae'r ysgolion eisoes yn dioddef oherwydd problemau tagfeydd a wnelo â rhieni yn cludo eu plant i'r ysgol. Dylid rhoi sylw er mwyn darparu llwybrau diogel i gerddwyr i'r Ysgol.
2. Man chwarae:. Ar hyn o bryd nid oes darpariaeth ar gyfer Man Chwarae ar y safle. Mae'n rhesymol i ddisgwyl bod ardal lle bydd i fyny at 150 o gartrefi newydd yn mynd i gael eu creu yn mynd i ddod â theuluoedd a phlant i'r ardal. Mae hyn yn gofyn am ddarparu ar gyfer man diogel i blant chwarae.
1. 3. Addysg:Ar hyn o bryd mae yna ormod o blant yn ysgolion y dref. Fe allai'r cynnydd arfaethedig ym mhoblogaeth y dref ddim ond yn dod â'r broblem hon i bwynt argyfwng. Mae'r Cyngor yn gobeithio y rhoddir sylw ar frys i'r mater gan Gyngor Sir Caerfyrddin.

Goleuadau o amgylch y Swyddfeydd Dinesig a'r Neuadd Ddinesig. Roedd y Swyddog Technegol wedi holi yngl n â pham nad oedd y goleuadau hyn yn gweithio. Yn amlwg, mae'r goleuadau wedi cael eu hamseru, ond dal ddim yn gweithio.

6034:Ethol Darpar Faer.

Cynigiodd y Cyng. K. Day y Dirprwy Faer Cyng. R. Bellamy i'r swydd Darpar Faer. Eiliwyd hyn gan y Cyng. Gwyn. Nid oedd enwebiadau pellach. Etholwyd y Cyng. R. Bellamy fel y Darpar Faer i Gyngor Tref Llandeilo Fawr gyda phawb o blaid.

6035: Ethol Dirprwy Darpar Faer..

Cynigiodd y Cyng R. Bellamy y Cyng. C. Jenkins i'r swydd Darpar Dirprwy Faer. Eiliwyd hyn gan Cyng. K. Day. Nid oedd enwebiadau pellach. Etholwyd y Cyng. Jenkins fel Darpar Dirprwy Faer i Gyngor Tref Llandeilo Fawr gyda phawb o blaid.

6036: Ymddiriedolaeth Dinesig Llandeilo a'r Cylch yn defnyddio'r Neuadd Sirol fel cyfeiriad post. Roedd Mr Townsley Huws wedi gofyn am ganiatâd i ddefnyddio'r Neuadd Sirol fel cyfeiriad post ar gyfer yr Ymddiriedolaeth.

Mae'r Pwyllgor wedi cytuno i ganiatáu hyn os ydy Ymddiriedolaeth Dinesig Llandeilo a'r Cylch yn darparu a gosod bocs addas yn unol â'n gofynion.

Yr Ymddiriedolaeth Dinesig ond i ddefnyddio'r Neuadd Sirol fel Cyfeiriad gohebiaeth.

Defnydd o'r Neuadd Sirol gan gyrff gwahanol fel Man cyfarfod i'w roi ar yr Agenda ar gyfer cyfarfod mis Ebrill o'r Cyngor Llawn.

6037: Gostyngiad Treth wrth brynu Ail Gartrefi. Trafododd y Cyngor y gohebiaeth a dderbyniwyd ynglŷn â'r cynnig i roi gostyngiad treth wrth brynu ail gartrefi ar gyfer eu rhentu.

Nid yw'r Cyngor yn credu y dylai pobl sy'n prynu ail gartref fwynhau unrhyw fantais treth arbennig.

6038: Les y Neuadd Sirol. Roedd y Cyng. Gwyn wedi cyfarfod Mr Gwilym Hughes o Archaeoleg Cambria. Hoffai Cambria adnewyddu'r les ond ar hyn o bryd yn dioddef prinder lle. Byddai Mr Hughes yn hoffi comisiynu pensaer i edrych ar ddulliau er mwyn darparu mwy o le swyddfa o fewn yr adeilad.

Y Neuadd Sirol i fod ar yr agenda o gyfarfod arbennig i'w gynnal ar ddydd Mercher 24ain Mawrth 2004 yn y Neuadd Sirol am 7.00pm.

6039: Taliadau Maes Parcio. Yn groes i ewyllys y Cyngor hwn a phobl y dref, mae Cyngor Sir Caerfyrddin wedi mynd ymlaen gan gyflwyno Taliadau Maes Parcio yn Llandeilo. Mae'r Cyngor wedi derbyn cwynion niferus oddi wrth drigolion y dref wrth i fwy o geir gael eu parcio yn anaddas er mwyn osgoi y taliadau hyn. Nid yw preswylwyr yn gallu parcio yn ymyl eu cartrefi ac mae mynediad i'r feddygfa yn mynd yn anoddach i'r henoed a'r methedig.

Y Clerc i ysgrifennu at Richard Workman yn Neuadd Sirol yn disgrifio'r anawsterau i bobl y dref ac i fynd ar ôl y syniad o ryw fath o gynllun trwydded parcio i breswylwyr. Byddai'r Cyngor yn hoffi gweld ffigyrau penodol yn gysylltiedig â'r gost, a chost effeithiol y taliadau parcio.

6040: **Y Rheiliau yn y Cilgant**. Dywedodd Roger Thomas o Efail y Tymbl bod y gwneuthuriad bron wedi ei gwblhau, a byddai'r gwaith gosod yn dechrau yn yr wythnos yn dechrau 23ain o fis Ebrill 2004. Derbyniodd y Cyngor lythyr oddi wrth Peter Morgan yn rhoi caniatâd o'r diwedd i'r cynllun fynd yn ei flaen.

Mae angen i'r Cyngor drafod ailosod y meinciau presennol gyda meinciau o waith haearn, i gydfynd gyda'r rheiliau. Diolchodd y Cyng. Day y Maer a'r Swyddog Technegol am yr holl waith a wnaethpwyd i gadw'r cynllun ar drywydd.

6041: Adroddiad y Maer. Tra bod rhif angenrheidiol o lofnodion wedi eu derbyn bydd Llandeilo 'nawr yn cael Broadband.

19.2.04	Capel Salem - £50.00 rhodd
21.2.04	Diwrnod Agored yr Arolwg Treftadaeth.
23.2.04	Cyfarfod Ymddiriedolaeth Dinesig.
22.2.04	Cyfarfod Cymdeithas Gymunedol y Neuadd Ddinesig. Y cyfarfod nesaf yn gyfarfod agored i'w gynnal ar 5ed o Ebrill 2004.
27.2.04	Cyfarfod gyda Nerys Hughes ynglŷn â chynnal Gŵyl Goleuadau.
28.2.04	Agorwyd Diwrnod y Plant. £50.00 rhodd i NSPCC
1.3.04	Cyfarfod yn yr Orsaf gyda Swyddog Cyhoeddusrwydd rheilffordd Calon Cymru. David Edwards, a G White swyddog datblygu'r rheilffordd. Trafodwyd cyfraniad yr ysgolion yng nghadwraeth a

	datblygiad yr orsaf, yn cynnwys cynllun i greu darn a gelfyddyd seramig.
2.03.04	Cyfarfod arbennig o'r Gymdeithas Gymunedol, y Cyng. K. Day wedi ei ethol fel Cadeirydd.
5.3.04	Cyfarfod wedi ei drefnu gyda Sgt Clark yngl n â C.C.T.V. wedi ei ganslo.
6.3.04	Perfformiad yn Ysgol Tregib o'r Ballet Russe. Rhodd £50.00

0166

Roedd y Maer wedi derbyn llythyrau oddi wrth David Townsley Huws a Denys Smith yngl n â pherchnogaeth presennol a statws y Sefydliad Cyhoeddus.

Y Sefydliad Cyhoeddus i fod yn eitem agenda ar gyfer cyfarfod mis Ebrill o'r Cyngor Llawn.

6042: Gohebiaeth Gwahoddiad i Ffair Arian Grant.

Cyng. Bellamy i fynd ar ran y Cyngor.

6043: Diweddglo'r Arolwg.. Roedd y Clerc wedi derbyn y Rhybudd o Ddiwedd yr Arolwg am y flwyddyn yn gorffen 31 Mawrth 2003.

Yr hysbyseb i'w arddangos am y 14 diwrnod angenrheidiol

6044: Ymddiswyddiad y Clerc. Mae'r Clerc wedi dosbarthu llythyr ymddiswyddo.

Bydd hyn yn eitem agenda i'r cyfarfod arbennig i'w gynnal yn y Neuadd Sirol ar ddydd Mercher 23ain Mawrth 2004.

Daeth y cyfarfod i ben am 9.30pm

0166